TGAU

# CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru

Yr Oesoedd Canol

Adran A: Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–1197

Adran B: Owain Glyndŵr tua 1354–1416

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Papur Cwestiynau | 1 |
| Cynllun Marcio | 8 |
| Grid mapio | 30 |


SAMPL

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

TGAU

3130NA0-1

# TGAU Hanes – Uned 1
# Astudiaeth fanwl o hanes Cymru
# 1: Yr Oesoedd Canol

## 1 awr
## DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

SAMPL

**Deunyddiau ychwanegol**
Llyfryn ateb pinc 16 tudalen CBAC.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Dylid ysgrifennu atebion i gwestiynau 3b, 4b / 7b, 8b mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau).

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar flaen eich llyfryn ateb.

Defnyddiwch ddwy ochr y papur.

Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y ddau flwch ar yr ochr chwith ar ddechrau pob ateb, er enghraifft | 0 | 1 |

Gadewch o leiaf dwy linell rhwng pob ateb.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Gall y ffynonellau a ddefnyddir gynnwys geiriau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n gyffredin ac sydd bellach yn cael eu hystyried yn derminoleg ddifrïol. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu cyfnod a lleoliad fersiwn wreiddiol y ffynonellau hyn.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

## Adran A

### 1.1 Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–1197

**0 1** Atebwch **bob** rhan o Gwestiwn 1.

Dewiswch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol gan ddefnyddio'r tabl isod. **[5]**

**(a)** Pa gastell gafodd ei gipio gan y Deheubarth yn 1145?

**(b)** Pryd cafodd Ceredigion ei hail-gipio oddi wrth Wynedd?

**(c)** Ble mae Rhys ap Gruffudd wedi'i gladdu?

**(ch)** Pa aelod o deulu brenhinol Lloegr geisiodd berswadio Rhys ap Gruffudd i beidio ag ymosod ar ei gymdogion yn 1189?

**(d)** Pryd ddaeth Rhys ap Gruffudd yn rheolwr ar y Deheubarth?

| | | |
|---|---|---|
| 1155 | John o Loegr | Caerfyrddin |
| Rhisiart I o Loegr | Rhaglan | 1158 |
| Tyddewi | 1153 | Harri II o Loegr |

**0 2** Esboniwch pam roedd gwrthdaro yn Ne Cymru rhwng 1146 ac 1170. **[10]**


© WJEC CBAC Ltd. 2024

**0 3** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch y rhyfeloedd a ymladdodd Rhys ap Gruffudd yn erbyn ei gymdogion Normanaidd rhwng 1189 a 1196. **[5]**

**(b)** Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu ni i ddeall y rhesymau pam yr aeth Rhys ap Gruffudd i ryfela rhwng 1189 a 1196? **[15]**

| **Eitem 1** | Thomas Jones Pierce, hanesydd canoloesol, yn ysgrifennu yn yr erthygl "Rhys ap Gruffudd (1132–1197), Arglwydd y Deheubarth" yn *Y Bywgraffiadur Cymreig (1959)* |
|---|---|
| Yn amlwg iawn yn ei flynyddoedd olaf oedd anufudd-dod ei feibion, a diffyg diddordeb Rhisiart I yn y swydd arbennig yr oedd gan Rhys ap Gruffudd dan Harri II. Gan gredu mai ymosod yw'r ffordd orau o amddiffyn, fe wnaeth yr Arglwydd Rhys ailddechrau ymosodiadau yn erbyn ei gymdogion Normanaidd, a barhaodd tan ddiwedd ei oes. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 0 | 4 |
|---|---|

Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Rhowch amlinelliad o berthynas Rhys ap Gruffudd â Harri II rhwng 1170 ac 1189. **[5]**

**(b)** I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod Rhys ap Gruffudd wedi bod yn llwyddiannus rhwng 1170 a 1189? **[20]**

| **Eitem 2** | David Ross, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei lyfr hanes *Wales, History of a Nation* (2005) |
|---|---|
| Pan sefydlodd yr Arglwydd Rhys [ap Gruffudd] ei reolaeth yng Ngheredigion cymerodd drosodd nawdd yr abaty a oedd newydd ei adeiladu yn Ystrad Fflur. Cafodd ei ailadeiladu, ei ehangu a chafodd lawer iawn o dir ei roi iddo. Byddai arglwyddi a thywysogion Cymru yn dod yma yn eu henaint i baratoi ar gyfer marwolaeth a chladdedigaeth. Daeth Ystrad Fflur yn abaty pwysicaf Cymru. | |

| **Eitem 3** | Awdur dienw, yn ysgrifennu yn y cofnod ar gyfer 1176 yn *Brut y Tywysogion*, cyfieithiad Cymraeg o destun Lladin coll. Mae'n debygol mai mynachod o Gymru yn abaty Ystrad Fflur a gyfieithodd y testun. |
|---|---|
| Ac yna fe gynhaliodd yr Arglwydd Rhys wledd arbennig yn Aberteifi gan osod dau fath o gystadleuaeth. Un rhwng y prydyddion a'r beirdd, ac un arall rhwng y telynorion, y pibyddion a chwaraewyr eraill offerynnau llinynnol. Ac fe osododd ddwy gadair ar gyfer enillwyr y cystadlaethau hyn. Roedd hefyd yn eu gwneud yn gyfoethog trwy roi rhoddion mawr iddyn nhw. | |

SAMPLE

**DIWEDD ADRAN A**

**Trowch drosodd ar gyfer Adran B**



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Adran B

### 1.2 Owain Glyndŵr tua 1354–1416

**0 5** Atebwch **bob** rhan o Gwestiwn 5.

Dewiswch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol gan ddefnyddio'r tabl isod. **[5]**

**(a)** Pwy oedd gwraig Owain Glyndŵr?

**(b)** I ba arglwydd o Loegr y gwnaeth Owain Glyndŵr wasanaeth milwrol yn yr Alban?

**(c)** Pryd digwyddodd Brwydr Mynydd Hyddgen?

**(ch)** Ym mhle'r oedd Owain Glyndŵr yn cynnal senedd Cymru?

**(d)** Pryd y gwrthododd Owain Glyndŵr bardwn gan y Brenin Harri IV?

| | | |
|---|---|---|
| Harlech | John o Gaunt | 1401 |
| Elen Ferch Thomas ap Llywelyn | 1406 | Margaret Hanmer |
| 1411 | Iarll Arundel | Machynlleth |

**0 6** Esboniwch pam roedd cefnogaeth o'r tu allan i Gymru yn bwysig i Owain Glyndŵr yn ystod ei deyrnasiad fel Tywysog Cymru. **[10]**

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

**0 7** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch y dirgelwch ynghylch marwolaeth Owain Glyndŵr. **[5]**

**(b)** Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu ni i ddeall blynyddoedd olaf Gwrthryfel Owain Glyndŵr? **[15]**

| **Eitem 1** | Awdur anhysbys yn ysgrifennu yn yr erthygl "Dyddiau olaf Owain Glyndŵr" ar wefan *Cymdeithas Owain Glyndŵr* (diweddarwyd yn 2017) |
|---|---|
| Erbyn 1412 roedd Glyndŵr wedi colli rheolaeth dros y rhan fwyaf o'r tir yr oedd yn arfer bod yn ei feddiant. Er bod rhai ardaloedd yn dal i gefnogi, nid oedd y rheini yn ddigon i wrthsefyll grym y gelyn. Eithriad i'r patrwm hwn oedd Meirionnydd, lle cafodd coron Lloegr gryn anhawster i reoli'r bobl; parhaodd y gwrthwynebiad tan farwolaeth Glyndŵr. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

**0 8** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**a)** Disgrifiwch Brwydr Mynydd Hyddgen. **[5]**

**b)** I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod polisïau Harri IV wedi arwain at gynnydd yn y gefnogaeth i'r gwrthryfel yng Nghymru? **[20]**

| **Eitem 2** | Detholiad o'r Deddfau Cosbi yn erbyn y Cymry a basiwyd gan Senedd Harri IV yn 1402. |
|---|---|
| Gorchymynnir na fydd unrhyw Sais yn cael ei ganfod yn euog gan Gymro.<br>Gorchymynnir na fydd unrhyw Gymro yn cael mynd ag arf i'r carchar.<br>Gorchymynnir na fydd gan yr un Cymro ei gastell, ei gaer na'i dŷ amddiffynedig ei hun. | |

| **Eitem 3** | Gideon Brough, darlithydd prifysgol mewn Hanes Canoloesol, yn ysgrifennu yn ei lyfr academaidd *The Rise and Fall of Owain Glyndwr – England, France and the Welsh Rebellion in the Late Middle Ages* (2017) |
|---|---|
| Cafodd Brwydr Bryn Glas yn 1402 effaith sylweddol ar y gefnogaeth i Wrthryfel Cymru. Roedd hyn yn dangos bod y Cymry'n drefnus, wedi'u paratoi'n dda, ac yn cael eu harwain yn dda, a'u bod yn dilyn cynllun oedd yn gweithio. Collodd y Saeson lawer o ddynion a defnyddiwyd eu hoffer i gryfhau'r fyddin Gymreig. Parhaodd y gwrthryfel i dyfu a dechreuodd drechu byddin Lloegr a llywodraeth Lloegr yng Nghymru. | |

SAMPL

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

### Egwyddorion marcio generig

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracsiynau eraill) a roddir bob amser.
- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn).
- Rhoddir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn ennill marciau llawn ac i ymateb gwael iawn beidio ag ennill unrhyw farciau o gwbl.  Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys *'Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr.  Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodir uchod, ni fwriedir i'r cynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys yr holl gynnwys dangosol er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hwn.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff arholwyr eu hatgoffa y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

SAMPL


© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cynllun marcio ar gyfer Adran A

| Cwestiwn 1 | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (a) | Pa gastell gafodd ei gipio gan y Deheubarth yn 1145? | | | | |
| | **Caerfyrddin** | 1 | | | 1 |
| (b) | Pryd cafodd Ceredigion ei hail-gipio oddi wrth Wynedd? | | | | |
| | **1153** | 1 | | | 1 |
| (c) | Ble mae Rhys ap Gruffudd wedi'i gladdu? | | | | |
| | **Tyddewi** | 1 | | | 1 |
| (ch) | Pa aelod o deulu brenhinol Lloegr geisiodd berswadio Rhys ap Gruffudd i beidio ag ymosod ar ei gymdogion yn 1189? | | | | |
| | **John o Loegr** | 1 | | | 1 |
| (d) | Pryd ddaeth Rhys ap Gruffudd yn rheolwr ar y Deheubarth? | | | | |
| | **1155** | 1 | | | 1 |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 2 | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam roedd gwrthdaro yn Ne Cymru rhwng 1146 ac 1170. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd gwrthdaro yn ganlyniad i'r cyfnewid pŵer yn Ne Cymru, i raddau helaeth. Roedd y Normaniaid wedi cymryd y Deheubarth oddi ar Rhys ap Tewdwr ym 1093 ac roedd ei deulu wedi bod yn ymladd dros ei dychwelyd ers 1116. Ar ôl marwolaeth Gruffudd ap Rhys, parhaodd ei blant – gan gynnwys Rhys ap Gruffudd – i frwydro dros ddychwelyd y diriogaeth hon.
- Nid oedd arglwyddi Normanaidd yn gallu ymyrryd mewn digwyddiadau yng Nghymru chwaith. Nid oedd ganddynt gefnogaeth brenin cryf yn Lloegr gan fod ymladd dros orsedd Lloegr hyd at 1154. Roedd hyn yn golygu bod cystadleuaeth barhaus gyda Gwynedd am diriogaeth gan fod Owain Gwynedd hefyd yn manteisio ar wendidau'r Normaniaid.
- Wrth i'r grym gael ei ddychwelyd i frenhinoedd Lloegr, gyda esgyniad Harri II yn 1154, cafwyd ymosodiadau o'r newydd ar diriogaethau llywodraethwyr Cymru, gan gynnwys yr ymosodiad ar y Deheubarth. Ym 1163 ffurfiodd Rhys ap Gruffudd gynghrair yn erbyn y Saeson gydag Owain Gwynedd fel rhan o wrthryfel y Cymry yn erbyn ymosodiadau gan y Saeson a arweiniodd at ymgyrchoedd llwyddiannus i'r Cymry a heddwch gyda Harri II erbyn 1170.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024



SAMPL

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 3a | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|
| Disgrifiwch y rhyfeloedd rhwng Rhys ap Gruffudd a'i gymdogion Normanaidd rhwng 1189 a 1196. | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Ymosododd Rhys ap Gruffudd ar yr arglwyddiaethau Normanaidd ym Mhenfro, Hwlffordd a Gŵyr yn 1189. Fel rhan o'r ymgyrch hon, cipiodd Rhys gestyll yn Sanclêr, Talacharn a Llansteffan. Daeth â gwarchae Caerfyrddin i ben yn 1189 i fynd i gyfarfod â Rhisiart I yn Rhydychen, er nad aeth Richard i'r cyfarfod hwn.
- Yn 1190 ychwanegodd Rhys ap Gruffudd arglwyddiaethau Normanaidd Cydweli a Charnwyllion i'r Deheubarth. Ymosododd Rhys ar diroedd ei fab-yng-nghyfraith William Fitzwilliam yn 1191, er ei fod wedi tyngu llw i beidio â gwneud hynny.
- Yn 1196, gan fod y Saeson yn canolbwyntio ar y bygythiad o Bowys, manteisiodd Rhys ar y cyfle i gipio nifer o gestyll Arglwyddi'r Mers Normanaidd, gan gynnwys Caerfyrddin, Colwyn, Maesyfed a Chastell-paen.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 3b | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu ni i ddeall y rhesymau pam yr aeth Rhys ap Gruffudd i ryfela rhwng 1189 a 1196?<br><br>**Eitem 1:** Thomas Jones Pierce, hanesydd canoloesol, yn ysgrifennu yn yr erthygl "Rhys ap Gruffudd (1132–1197), Arglwydd y Deheubarth" yn *Y Bywgraffiadur Cymreig (1959)*<br><br>Yn amlwg iawn yn ei flynyddoedd olaf oedd anufudd-dod ei feibion, a diffyg diddordeb Rhisiart I yn y swydd arbennig yr oedd gan Rhys ap Gruffudd dan Harri II. Gan gredu mai ymosod yw'r ffordd orau o amddiffyn, fe wnaeth yr Arglwydd Rhys ailddechrau ymosodiadau yn erbyn ei gymdogion Normanaidd, a barhaodd tan ddiwedd ei oes. | | **[15]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitem yn werthfawr i'n helpu i ddeall pam yr aeth Rhys i ryfela yn ystod y cyfnod hwn gan ei fod yn esbonio ei fod, tua diwedd ei oes, wedi wynebu problemau gyda'i feibion. Fodd bynnag, mae ei werth yn gyfyngedig gan ei bod yn bwysig deall y rhesymau am y problemau hyn, er enghraifft roedd ei feibion, Maelgwn, Rhys Gryg a Maredudd yn poeni am yr olyniaeth.
- Mae gwerth i'r eitem hefyd gan ei bod yn nodi bod yr arglwyddi Normanaidd yn ymddangos yn fwy o fygythiad gan nad Brenin Lloegr bellach yn cefnogi Rhys. Ond mae hyn hefyd yn cael ei danseilio gan y diffyg esboniad pam na roddodd Rhisiart I o Loegr yr un breintiau iddo ag yr oedd Harri II wedi eu rhoi iddo.  Nid oedd hyn yn ddim i'w wneud â Rhys, ond yn hytrach yn ganlyniad i'r berthynas anodd rhwng Rhisiart I a'i dad, Harri II.
- Mae'r wybodaeth y mae'r eitem hon – sy'n ddehongliad – yn ei chynnwys yn gywir, fel y gellid ei ddisgwyl mewn erthygl gan hanesydd canoloesol. Gellid dadlau bod hyn yn gwella ei werth o ran deall pam yr aeth Rhys i ryfela mor hwyr; fodd bynnag, mae hefyd yn ddarn byr sydd heb ei ddatblygu, ond eto mae hyn yn ddisgwyliedig o ystyried bod y dehongliad yn rhan o gofnod bywgraffyddol byr gyda'r nod o roi trosolwg o fywyd Rhys.
- Gellir awgrymu hefyd bod gwerth y dehongliad yn cael ei gyfoethogi gan ei fod wedi'i ysgrifennu gan hanesydd canoloesol, y gellid disgwyl bod ganddo well dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol hwn yn ogystal â gwybodaeth fanylach am ffynonellau cyfoes. Ar y llaw arall, gall y safbwyntiau a fynegir hefyd fod wedi'u dyddio rhywfaint mewn bywgraffiad sydd wedi'i ysgrifennu ers dros hanner canrif.
- Ar y cyfan, gellid awgrymu bod yr eitem yn werthfawr gan ei bod yn rhoi dadansoddiad arbenigol o'r rhesymau pam y bu Rhys ap Gruffudd yn rhyfela rhwng 1189 ac 1196, neu gellir dadlau bod y ffaith ei bod mor fyr ac wedi dyddio i raddau yn ffactorau cyfyngol sy'n ei gwneud yn llai yn hytrach nag yn fwy gwerthfawr i'n helpu ni i ddeall y mater hwn.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| **2** | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 4a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Rhowch amlinelliad o berthynas Rhys ap Gruffudd â Harri II rhwng 1170 a 1189. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd perthynas dda rhwng Rhys ap Gruffudd a Harri II. Cyfarfu Rhys a Harri ym Mhenfro ym mis Hydref 1171, lle cytunodd Brenin Lloegr i gadarnhau enillion tiriogaethol Rhys ar yr amod bod Rhys yn cydnabod goruchafiaeth Harri.
- Yn dilyn hynny, fe wnaeth Harri gydnabod Rhys fel y rheolwr pwysicaf yng Nghymru a'i benodi'n Brif Ustus yn 1172. Roedd hyn yn golygu bod Rhys yn gallu rheoli yn absenoldeb Harri, ac roedd yn gyflawniad pwysig ac unigryw ymhlith rheolwyr yng Nghymru ar yr adeg hon.
- Dyrchafwyd safle Rhys hefyd gan ei ran yn y Cyngor Brenhinol, sef y cyfarfod rhwng y Goron a'r uchelwyr pwysicaf. Aeth i'r Cynghorau Brenhinol yng Nghaerloyw yn 1175 a Rhydychen yn 1177 ac ef oedd yr unig reolwr o Gymru i gymryd rhan.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 4b | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod Rhys ap Gruffudd wedi bod yn llwyddiannus rhwng 1170 a 1189?<br><br>**Eitem 2:** David Ross, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei lyfr hanes cyffredinol *Wales, History of a Nation* (2005)<br><br>Pan sefydlodd yr Arglwydd Rhys [ap Gruffudd] ei reolaeth yng Ngheredigion cymerodd drosodd nawdd yr abaty a oedd newydd ei adeiladu yn Ystrad Fflur. Cafodd ei ailadeiladu, ei ehangu a chafodd lawer iawn o dir ei roi iddo. Byddai arglwyddi a thywysogion Cymru yn dod yma yn eu henaint i baratoi ar gyfer marwolaeth a chladdedigaeth. Daeth Ystrad Fflur yn abaty pwysicaf Cymru.<br><br>**Eitem 3:** Awdur dienw, yn ysgrifennu yn y cofnod ar gyfer 1176 yn *Brut y Tywysogion*, cyfieithiad Cymraeg o destun Lladin coll. Mae'n debygol mai mynachod o Gymru yn abaty Ystrad Fflur a gyfieithodd y testun.<br><br>Ac yna fe gynhaliodd yr Arglwydd Rhys wledd arbennig yn Aberteifi gan osod dau fath o gystadleuaeth. Un rhwng y prydyddion a'r beirdd, ac un arall rhwng y telynorion, y pibyddion a chwaraewyr eraill offerynnau llinynnol. Ac fe osododd ddwy gadair ar gyfer enillwyr y cystadlaethau hyn. Roedd hefyd yn eu gwneud yn gyfoethog trwy roi rhoddion mawr iddyn nhw. | | **[20]** |

## Cynnwys Dangosol

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitemau'n dwyn perswâd gan fod y ddau yn awgrymu bod Rhys wedi cael rhywfaint o lwyddiant rhwng 1170 a 1189. Mae Eitem 2 yn cyfeirio at sut y llwyddodd i sefydlu ei reolaeth yng Ngheredigion ac elwa o'r bri a ddaeth yn sgil ei statws fel noddwr Ystrad Fflur. Nodir y dimensiwn diwylliannol hwn hefyd yn Eitem 3, sy'n dangos iddo sefydlu'r Eisteddfod yn Ne Cymru drwy drefnu cystadlaethau llenyddol a cherddorol.
- Fodd bynnag, mae'r syniad bod Rhys wedi bod yn llwyddiannus oherwydd ei berthynas â Harri II, a roddodd swydd prif ustus iddo yn 1172, yn dwyn fwy o berswâd. Cafodd wahoddiad oddi wrth Harri hefyd i fynd i'r Cynghorau Brenhinol yng Nghaerloyw yn 1175 a Rhydychen yn 1177.
- Mae eitem 2, sy'n ddehongliad modern, yn cynnig trosolwg o'r cyfnod. Gan ei fod wedi'i ysgrifennu gan hanesydd, gellir dadlau ei fod yn cynnig dadansoddiad credadwy o Rhys, gyda'r cafeat mai dim ond trosolwg byr o'r cyfnod hwn y byddai'n ei gynnig gan ei fod yn llyfr hanes cyffredinol, sy'n cwmpasu hanes Cymru. Fodd bynnag, gan ei fod yn dod o lyfr hanes sy'n canolbwyntio ar hanes Cymru, mae'n debygol bod yr awdur yn deall pwysigrwydd abatai yn hanes Cymru.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

- Mae eitem 3, ar y llaw arall, yn ffynhonnell gyfoes, ac mae'r ddadl fod Rhys wedi bod yn llwyddiannus yn cael ei hategu gan yr awgrym iddo lwyddo i greu arloesedd diwylliannol. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai ei lwyddiannau'n cael eu pwysleisio mewn adroddiad a ysgrifennwyd gan fynachod mewn Abaty yr oedd yn ei noddi. Gellir nodi hefyd, gan fod hwn yn dod o 1176, mai dim ond adroddiad rhannol o'r hyn a gyflawnodd yn ystod y cyfnod y gall Eitem 3 ei ddarparu (mewn gwirionedd, fel cofnod mewn cronicl, dim ond at y flwyddyn honno y byddai'n cyfeirio). Ar ben hynny, mae'r eitem hon yn gyfieithiad o ddogfen Ladin goll ac mae'n amhosibl mesur cywirdeb y cyfieithiad.
- Ar y cyfan, mae'r eitemau'n dwyn perswâd, hyd at bwynt, fod Rhys wedi cael rhywfaint o lwyddiant ar yr adeg hon, gan eu bod yn nodi cyflawniadau diwylliannol Rhys. Ynghyd â'i berthynas dda â Harri II o Loegr, mae'n debygol y bydd y cyfnod rhwng 1170 a 1189 yn cael ei ystyried yn gyfnod llwyddiannus i Rhys ap Gruffudd.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| 4 | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| 3 | **5–6 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| 2 | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cynllun marcio ar gyfer Adran B

| Cwestiwn 5 | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (a) | Pwy oedd gwraig Owain Glyndŵr? | | | | |
| | **Margaret Hanmer** | 1 | | | 1 |
| (b) | I ba arglwydd o Loegr y gwnaeth Owain Glyndŵr wasanaeth milwrol iddo yn yr Alban? | | | | |
| | **John o Gaunt** | 1 | | | 1 |
| (c) | Pryd digwyddodd Brwydr Mynydd Hyddgen? | | | | |
| | **1401** | 1 | | | 1 |
| (ch) | Ym mhle'r oedd Owain Glyndŵr yn cynnal senedd Cymru? | | | | |
| | **Machynlleth** | 1 | | | 1 |
| (d) | Pryd y gwrthododd Owain Glyndŵr bardwn gan y Brenin Harri IV? | | | | |
| | **1411** | 1 | | | 1 |

SAMPL


© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 6 | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam roedd cefnogaeth o'r tu allan i Gymru yn bwysig i Owain Glyndŵr yn ystod ei deyrnasiad fel Tywysog Cymru. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Fe wnaeth cefnogaeth allanol helpu Owain Glyndŵr i ennill brwydrau pwysig fel Bryn Owain *[Stalling Down]* yn 1403 lle'r oedd lluoedd Ffrainc a Chymru yn ymladd ochr yn ochr. Roedd Owain Glyndŵr yn ffodus bod hwn yn gyfnod pan oedd gan Loegr, ei brif fygythiad, lawer o elynion, oedd eisiau iddo ennill mantais dros Harri IV. Roedd Lloegr yng nghanol y Rhyfel Can Mlynedd gyda Ffrainc ar yr adeg hon.
- Roedd cefnogaeth ryngwladol hefyd wedi sicrhau fod Glyndŵr yn cael ei gydnabod fel Tywysog Cymru, a dyna pam y daeth cenhadon tramor o Ffrainc, yr Alban a Sbaen i'w senedd ym Machynlleth yn 1404. Bu llongau o Ffrainc a'r Alban yn patrolio arfordir Cymru gan ymosod ar ganolfannau Lloegr a lleihau'r risg o ymosodiad sylweddol o'r môr yn erbyn Glyndŵr. Yn llythyr Penal 1406, cynigiodd Glyndŵr weithredu ar y cyd â Ffrainc yn erbyn y Saeson a fyddai wedi ei helpu i gynnal momentwm ei wrthryfel, ar yr union adeg ag y dechreuodd ei ymgyrchoedd milwrol yng Nghymru arafu.
- Roedd cefnogaeth allanol gan garfanau yn Lloegr hefyd wedi helpu i gefnogi ymgyrch Glyndŵr dros annibyniaeth ac i gadarnhau ei reolaeth dros Gymru. Roedd y teulu Percy yn teimlo bod diffyg cydnabyddiaeth a gwobr am eu rôl mewn rhyfeloedd diweddar gyda'r Alban, ac roedd gan Edmund Mortimer hawl ei hun dros frenhiniaeth Lloegr. Yn 1405 cafodd Glyndŵr gefnogaeth gan yr arglwyddi Seisnig Henry Percy ac Edmund Mortimer i rannu'r deyrnas rhyngddynt, gan ddangos eu bod o ddifrif yn eu cefnogaeth i'r achos hwn.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 7a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch y dirgelwch ynghylch marwolaeth Owain Glyndŵr. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Ychydig iawn rydyn ni'n ei wybod am Owain Glyndŵr ar ôl iddo ddiflannu yn 1414, ond mae'n hysbys iddo wrthod pardwn gan Harri IV a'i olynydd Harri V, er mai trydydd parti oedd yn gwrthod ar ei ran. Dywedodd un o'i ddilynwyr ei fod wedi marw yn 1415 ond ni chafodd hyn erioed ei gadarnhau'n ffurfiol.
- Nid yw man claddu Glyndŵr yn hysbys – mae rhai pobl yn credu ei fod wedi'i gladdu ger Corwen lle bu ei ystadau, tra bod eraill yn dweud ei fod wedi ei gladdu yn Swydd Henffordd lle'r oedd ei ferched wedi priodi tirfeddianwyr lleol.
- Mae yna lawer o chwedlau gwerin am y modd y cuddiodd Glyndŵr ei hun a byw ei flynyddoedd olaf yn dawel. Roedd rhai pobl yn credu mai caplan o'r enw Siôn Cent oedd Glyndŵr mewn cuddwisg, mae eraill yn credu ei fod yn esgus bod yn fynach er mwyn iddo allu dysgu plant ei ferch Alys.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |


© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 7b | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu ni i ddeall blynyddoedd olaf gwrthryfel Owain Glyndŵr?<br><br>**Eitem 1:** Awdur anhysbys yn ysgrifennu yn yr erthygl "Dyddiau olaf Owain Glyndŵr" ar wefan *Cymdeithas Owain Glyndŵr* (diweddarwyd yn 2017)<br><br>Erbyn 1412 roedd Glyndŵr wedi colli rheolaeth dros y rhan fwyaf o'r tir yr oedd yn arfer bod yn ei feddiant. Er bod rhai ardaloedd yn dal i gefnogi, nid oedd y rheini yn ddigon i wrthsefyll grym y gelyn. Eithriad i'r patrwm hwn oedd Meirionnydd, lle cafodd coron Lloegr gryn anhawster i reoli'r bobl; parhaodd y gwrthwynebiad tan farwolaeth Glyndŵr. | | **[15]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitem yn werthfawr er mwyn deall blynyddoedd olaf gwrthryfel Owain Glyndŵr gan ei bod yn esbonio er bod y Saeson wedi ailfeddiannu llawer o'r diriogaeth a oedd wedi disgyn i'r Cymry yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, roedd rhai mannau yn parhau i wrthwynebu rheolaeth Lloegr. Fodd bynnag, mae ei werth yn gyfyngedig gan nad oes unrhyw fanylion am yr hyn yr oedd byddinoedd Lloegr na'r gwrthryfelwyr o Gymru yn ei wneud ar yr adeg hon, ac nid yw'n sôn ychwaith am weithred olaf Glyndŵr o bridwerthu Dafydd Gam, un o gefnogwyr y brenin, yn 1412, nac am dynged ei gynghreiriaid fel Mortimer a oedd wedi cael ei ddal gan y Saeson ar y pwynt hwn.
- Mae gwerth i'r eitem hefyd gan ei bod yn nodi bod Meirionnydd yn parhau i wrthsefyll rheolaeth Lloegr. Ond mae hyn hefyd yn cael ei danseilio gan y diffyg manylion am y modd yr oedd yn gwrthsefyll ac am pa mor effeithiol oedd y gwrthwynebiad hwn yn y pen draw.
- Mae'r wybodaeth y mae'r yr eitem hon – sy'n ddehongliad – yn ei chynnwys yn gywir, fel y gellid ei ddisgwyl o wefan sy'n canolbwyntio ar hanes unigolyn pwysig. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r awdur yn hanesydd amatur neu'n hanesydd proffesiynol, ac nid yw'n glir ychwaith pa fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddod o hyd i'r wybodaeth hon, er y gellir disgwyl hynny o wefan.
- Gellir awgrymu hefyd bod gwerth y dehongliad yn cael ei gyfoethogi gan rywun sydd â gwir ddiddordeb yn Owain Glyndŵr, sy'n awyddus i ddod o hyd i gymaint o wybodaeth â phosibl amdano. Ar y llaw arall, gallai'r safbwyntiau a fynegir gael eu tanseilio drwy edrych ar weithredoedd Glyndŵr yn fwy ffafriol na rhywun sy'n ei astudio o safbwynt mwy niwtral.
- Ar y cyfan, gellid awgrymu bod yr eitem yn werthfawr yn yr ystyr ei bod yn rhoi crynodeb cywir o sut y bu i wrthryfel Glyndŵr ddod i ben yn raddol, er y gellir dadlau bod ei diffyg manylion penodol yn ffactorau cyfyngol sy'n ei gwneud yn llai yn hytrach nag yn fwy gwerthfawr i'n helpu ni i ddeall y mater hwn.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| 4 | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| 2 | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 8a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch Brwydr Mynydd Hyddgen. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Ym mis Mehefin 1401, ymosododd 1 500 o filwyr o Loegr gyda chefnogaeth milwyr o Fflandrys ar Geredigion yn chwilio am gefnogwyr Owain Glyndŵr. Fe wnaethant gyfarfod tua 500 ohonynt ym Mynydd Hyddgen, ugain milltir o Aberystwyth ym Mynyddoedd Cambria.
- Roedd troedfilwyr arfog a marchogion Lloegr yn ei chael hi'n anodd brwydro yn erbyn saethwyr Cymru oedd wedi symud i fyny i'r mynyddoedd i arafu ymosodiad Lloegr. Taniodd y Cymry saethau tuag at drefniant clós Lloegr o bell. Roedd y Saeson yn ei chael hi'n anodd i ddianc oherwydd y tir corsiog.
- O ganlyniad i'r frwydr, cafodd o leiaf 200 o filwyr o Loegr eu lladd, eu hanafu neu eu cipio. Roedd yn golled fawr i'r Saeson oherwydd roedd eu niferoedd yn uwch ond roeddent yn dal i golli'r frwydr.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 8b | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|
| I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio chi bod polisïau Harri IV wedi arwain at fwy o gefnogaeth yng Nghymru i Wrthryfel Cymru?<br><br>**Eitem 2:** Detholiad o'r Deddfau Cosbi yn erbyn y Cymry a basiwyd gan Senedd Harri IV yn 1402.<br><br>Gorchymynnir na fydd unrhyw Sais yn cael ei ganfod yn euog gan Gymro.<br>Gorchymynnir na fydd unrhyw Gymro yn cael mynd ag arf i'r carchar.<br>Gorchymynnir na fydd gan yr un Cymro ei gastell, ei gaer na'i dŷ amddiffynedig ei hun.<br><br>**Eitem 3:** Gideon Brough, darlithydd prifysgol mewn Hanes Canoloesol, yn ysgrifennu yn ei lyfr academaidd *The Rise and Fall of Owain Glyndwr – England, France and the Welsh Rebellion in the Late Middle Ages* (2017)<br><br>Cafodd Brwydr Bryn Glas yn 1402 effaith sylweddol ar y gefnogaeth i Wrthryfel Cymru. Roedd hyn yn dangos bod y Cymry'n drefnus, wedi'u paratoi'n dda, ac yn cael eu harwain yn dda, a'u bod yn dilyn cynllun oedd yn gweithio. Collodd y Saeson lawer o ddynion a defnyddiwyd eu hoffer i gryfhau'r fyddin Gymreig. Parhaodd y gwrthryfel i dyfu a dechreuodd drechu byddin Lloegr a llywodraeth Lloegr yng Nghymru. | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitemau'n dwyn perswâd gan fod y ddau yn awgrymu rhesymau pam y gwelwyd cynnydd yn y gefnogaeth i wrthryfel Owain Glyndŵr ymhlith y Cymry. Mae Eitem 2 yn cyfeirio at y deddfau cosbi a basiwyd gan senedd Harri IV a osododd gyfyngiadau llym ar fywydau'r Cymry a'r rhai yn Lloegr oedd â chyswllt â nhw. Amlygir hyn hefyd yn Eitem 3, sy'n dangos bod cynllun Harri IV i guro'r gwrthryfelwyr yn filwrol wedi methu a bod y golled ym Mryn Glas wedi ysbrydoli mwy o bobl i ymuno â'r gwrthryfelwyr.
- Fodd bynnag, mae'r syniad mai llwyddiannau gwrthryfel Glyndŵr oedd yr ysbrydoliaeth i bobl i ymuno â'i wrthryfel mewn gwirionedd, o ganlyniad i fuddugoliaethau fel cipio Castell Conwy yn gyflym neu fuddugoliaethau milwrol fel Mynydd Hyddgen neu Fryn Glas, yn dwyn mwy o berswâd.
- Mae Eitem 2 yn ffynhonnell gyfoes, ac mae'r ddadl bod polisïau Harri IV wedi helpu i gynyddu'r gefnogaeth i Glyndŵr yn grediniol o ystyried yr awgrym bod y deddfau hyn yn llym iawn o ran y cyfyngiadau a osodwyd ar y Cymry ac o ganlyniad gellid gweld ei fod yn ennyn dicter yn erbyn Lloegr. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cael ei nodi mai dim ond trwy natur yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cyfreithiau cosbi y gellir dod i'r casgliad hwn gan nad yw'n rhoi unrhyw wybodaeth am ymateb y Cymry i'r deddfau hyn. Gellir nodi hefyd, gan ei fod yn dod o Ddeddf Seneddol, mai disgrifiad rhannol yn unig y gall Eitem 2 ei roi o'r hyn a allai fod wedi ysbrydoli pobl i gefnogi Glyndŵr.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

- Mae eitem 3, ar y llaw arall, yn ddehongliad modern a fyddai'n gallu cynnig trosolwg effeithiol o'r cyfnod. Wedi'i ysgrifennu gan hanesydd, gellir dadlau ei fod yn cynnig dadansoddiad credadwy o'r rhesymau dros y cynnydd yn y gefnogaeth i wrthryfel Glyndŵr, gyda'r cafeat ei fod yn dod o lyfr hanes Cymru, ac yn ôl pob tebyg yn cynnig barn o safbwynt Cymreig yn unig. Fodd bynnag, gan ei fod yn dod o lyfr hanes sy'n canolbwyntio ar Glyndŵr mae'n debygol bod yr awdur yn deall cymhellion y rhai oedd yn ei gefnogi.
- Ar y cyfan, mae'r eitemau yn dwyn perswâd bod polisïau Harri IV wedi cyfrannu at gynnydd yn y gefnogaeth i wrthryfel Glyndŵr, gan eu bod yn awgrymu rhesymau i'r Cymry deimlo'n ddig tuag at y Saeson. Mae'n debygol y bydd yn dod i'r casgliad bod gweithredoedd Harri IV wedi ysbrydoli pobl i ymuno â gwrthryfel Glyndŵr.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| 4 | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| 3 | **5–6 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| 2 | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1.1

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1.1.1 | | | | | | 1.1.2 | | | | | | 1.1.3 | | | | | | 1.1.4 | | | | | | 1.1.5 | | | | | |
| | | 1.1.1ai | 1.1.1aii | 1.1.1bi | 1.1.1bii | 1.1.1ci | 1.1.1cii | 1.1.2ai | 1.1.2aii | 1.1.2bi | 1.1.2bii | 1.1.2ci | 1.1.2cii | 1.1.3ai | 1.1.3aii | 1.1.3bi | 1.1.3bii | 1.1.3ci | 1.1.3cii | 1.1.4ai | 1.1.4aii | 1.1.4bi | 1.1.4bii | 1.1.4ci | 1.1.4cii | 1.1.5ai | 1.1.5aii | 1.1.5bi | 1.1.5bii | 1.1.5ci | 1.1.5cii |
| 1 | 5 | | | | | x | | | | | x | | | | | | | | | x | | | | x | | | | | x | | |
| 2 | 10 | | | | | | | x | x | x | x | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | |
| 3b | 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | |
| 4a | 5 | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4b | 20 | | | | | | | | | | | | | | | x | x | x | x | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1.2

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1.2.1 | | | | | | 1.2.2 | | | | | | 1.2.3 | | | | | | 1.2.4 | | | | | | 1.2.5 | | | | | |
| | | 1.2.1ai | 1.2.1aii | 1.2.1bi | 1.2.1bii | 1.2.1ci | 1.2.1cii | 1.2.2ai | 1.2.2aii | 1.2.2bi | 1.2.2bii | 1.2.2ci | 1.2.2cii | 1.2.3ai | 1.2.3aii | 1.2.3bi | 1.2.3bii | 1.2.3ci | 1.2.3cii | 1.2.4ai | 1.2.4aii | 1.2.4bi | 1.2.4bii | 1.2.4ci | 1.2.4cii | 1.2.5ai | 1.2.5aii | 1.2.5bi | 1.2.5bii | 1.2.5ci | 1.2.5cii |
| 5 | 5 | | | | | | x | | x | | | | | | | | x | | | | x | | | | | x | | | | | |
| 6 | 10 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | |
| 7a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | | |
| 7b | 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | x | x | | |
| 8a | 25 | | | | | | | | | | | | | | | | x | | | | | | | | | | | | | | |
| 8b | 20 | | | | | | | | | | | | | x | x | x | x | x | x | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Hawlfraint**

Mae'r eitemau a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion addysgiadol (nad ydynt yn fasnachol) yn unig, i hwyluso'r dysgu ac ar gyfer dadansoddi critigol. Darparwyd ffurflen gydnabyddiaeth ar gyfer pob eitem. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl eitemau'n cael eu defnyddio mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Defnydd Teg; os oes hepgoriadau neu anghywirdebau, rhowch wybod i ni fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw gywiriadau angenrheidiol.datblygucymwysterau@cbac.co.uk

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024